




Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.

Gallai'r camau allweddol ar y daith Mentro gynnwys y canlynol...



* Mae cyfranogwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheiny sydd wedi ymuno'n llawn â'r rhaglen trwy gwblhau proffil Mentro neu'n derbyn cyngor cynllunio busnes i sefydlu menter ar y cyd ar hyn o bryd.


* Mae'r erwau o dir sydd wedi cofrestru yn cynnwys cyfeirio at dir yr holl Ddarparwyr sydd wedi ymuno â'r rhaglen Mentro, yn cynnwys tir sy'n cael ei hysbysebu, tir sydd â Cheisiwr posib wedi neilltuo iddo, tir sy'n rhan o fenter ar y cyd wedi cwblhau a thir y rheiny sydd yng nghamau cyntaf y broses.

* Mae Darparwyr sy'n cynnig cyfle yn cyfeirio at dirfeddianwyr sy'n hysbysebu eu cyfle yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

* Mae'r rheiny sydd wedi canfod partner yn cynnwys unigolion sy'n datblygu menter ar y cyd newydd gyda phartner busnes posib yn ogystal â'r rheiny sydd wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu menter ar y cyd newydd.

Canran o Geisiwyr a Darparwyr (heb gynnwys y rheiny sydd wedi canfon partner)

■ Darparwyr
■ Ceisiwyr





Statws (unigolion wedi ymuno'n llawn yn unig)



■ Casglu Gwybodaeth ■ Wedi Cyflwyno Proffil ■ Wedi Canfod Partner
■ Wedi Sefydlu Menter ar y Cyd

Sectorau (cyfranogwyr gweithredol yn unig)



Cyfleoedd Presennol

Ar hyn o bryd, mae **pedwar** cyfle wedi cael eu hysbysebu ar wefan Cyswllt Ffermio. Cliciwch [yma](#) am ragor o fanylion am y cyfleoedd hyn.



Cyfle #486

Caerfyrddin
9.7 Ha / 23.96 erw
Bîff a Defaid gyda menter arallgyfeirio
45 o Famogiaid, 4 o Heffrod
Dim llety
Ffermio cyfran



Cyfle #340

TaI Y Cafn / Eglwysbach, Conwy
47Ha / 116 erw
Llaeth
150 o Wartheg godro Croesfrid
Llety ar gael
Gweithiwr cyflogedig



Cyfle #468

Llangefni, Ynys Môn
50Ha / 123 erw
Bîff
60 o Wartheg Bîff
Dim llety
Rhannu rheolaeth ond yn agored i drafodaeth



Cyfle #705

Tregaron
296Ha / 730 erw
Bîff a Defaid
25 o Wartheg Sugno Duon Cymreig a 400 o Famogiaid Mynydd Cymreig
Llety ar gael
Agored i drafodaethau

Cyfleoedd arall a hysbysebwyd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mai 2021:

Cyfle #105

Caerfyrddin
40Ha / 99 erw
Defaid
40 o Famogiaid
Nid yw'r cyfle yma ar gael bellach

Cyfle #635

Y Gelli Gandryll
10Ha / 24.71 erw
Garddwriaeth
Wedi canfod partner

Cyfle #551

Tregaron
220Ha / 543.63 erw
Llaeth
700 o Wartheg
Nid yw'r cyfle yma ar gael bellach

Cyfle #613

Llanelli
120Ha / 296.53 erw
Llaeth
200 o Wartheg Llaeth gyda 300 o Loi
Wedi canfod partner

Cyfle #586

Caerffili
240Ha / 593 erw
Llaeth
800 o Wartheg
Byngalo tair ystafell wely ar gael
Wedi canfod partner

Cyfle #644

Trefdraeth, Sir Benfro
185Ha / 457.14 erw
Llaeth
250 o Wartheg a 90 o Heffrod
Llety ar gael
Wedi canfod partner

Ailstrwythuro'r rhaglen Mentro

Er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd a gynigir trwy'r rhaglen Mentro yn fwy hygyrch i geiswyr, mae'r cyfleoedd bellach yn cael eu hysbysebu ar wefan Cyswllt Ffermio. Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i geiswyr gwblhau proffil a byddant yn derbyn manylion am gyfleoedd bob chwarter. Bellach, mae ceiswyr yn cwblhau ffurflen gais fel pe baent yn ymgeisio am swydd os oes ganddynt ddi-ddordeb mewn un o'r cyfleoedd. Gall ceiswyr hefyd gael eu hychwanegu at 'Restr Bostio Ceiswyr', felly byddant yn derbyn neges bob tro y bydd cyfle newydd yn dod ar gael.

Wedi eich geni'n ffermwr, neu wedi eich geni i ffermio?

Yn ystod Cynhadledd Ffermio Cymru 2021, bu'r ffermwyr cenhedlaeth gyntaf, Rhun Williams, Matthew Jackson a Rhidian Glyn yn cynnal sesiwn holi ac ateb byw. Buont yn trafod eu profiadau ac yn rhoi arweiniad gonest yr oedd ceiswyr ar y rhaglen Mentro'n gallu uniaethu ag ef. Fe wnaethant ateb cwestiynau eang ynglŷn â sut maen nhw bellach wedi dod yn ffermwyr llwyddiannus er nad oedden nhw'n dod o gefndiroedd ffermio.



Cliciwch [yma](#) i wyllo fideo am y tri.

'Grŵp Facebook 'Dechrau Ffermio'



Yn ystod mis Mawrth 2021, lanswyd grŵp Facebook 'Dechrau Ffermio'. Mae'r grŵp yn lle penodol i newydd ddyfodiaid i'r diwydiant amaeth rannu profiadau, gwneud cysylltiadau newydd a dod o hyd i gyfleoedd i ddechrau ffermio.

Gall fod yn llethol ac yn anodd iawn i newydd ddyfodiaid ganfod pa feysydd o raglen Cyswllt Ffermio sy'n berthnasol iddyn nhw. Bydd y grŵp 'Dechrau Ffermio' yn hidlo'r wybodaeth ac yn ei dargedu'n fwy penodol. Bydd manylion cyfleoedd Mentro cyfredol a manylion cyrsiau hyfforddi, digwyddiadau a gweminarau sydd wedi'u targedu'n benodol ar gyfer newydd ddyfodiaid yn cael eu rhannu ar y dudalen.

Bydd aelodau'r grŵp hefyd yn gallu cyhoeddi cynnwys ar ffrwd newyddion y grŵp ac mae'n bosibl y byddai darparwyr posibl yn dymuno ymuno â'r grŵp i rannu swyddi gwag neu gyfleoedd mentro ar y cyd eu hunain. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r tîm Mentro recriwtio'r rhain fel darparwyr, hwyluso'r broses baru a'u cynorthwyo i gael mynediad at gymorth pellach gan Cyswllt Ffermio.

Hyd at 31 Mai, mae gan y grŵp 203 o aelodau.